
Peirianeg tîm T885

Patrwm cyflwyno *O fis Hydref i fis Mehefin*
 O fis Ionawr i fis Hydref

Disgrifiad o'r cwrs

Yn y cwrs hwn bydd myfyrwyr yn datblygu'r sgiliau peirianeg proffesiynol hanfodol o weithio gydag eraill. Byddant yn gweithio fel rhan o dîm prosiect bach a gaiff ei ffurfio yn ystod penwythnos gorfodol cyntaf ysgol breswyl. Bydd prosiectau'n cwmpasu maes eang o beirianeg – a bydd angen datblygiad cydweithredol o'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddadansoddi system beirianeg a chynhyrchu manyleb ddiwygiedig ar gyfer y system. Byddant yn gweithio gyda'i gilydd mewn tîm, o dan arweiniad gan eu tiwtor, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu e.e. wikis, cyfarfodydd ar-lein, MyStuff, e-bost, cyfarfodydd dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Caiff canlyniadau eu tîm eu cyflwyno a'u hasesu yn ystod ail benwythnos gorfodol ysgol breswyl a thrwy gyflwyno adroddiad ysgrifenedig.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Bydd yn ofynnol i chi oruchwylio tîm o tua phum myfyriwr T885 wrth iddynt weithio ar eu prosiect peirianeg a ddewiswyd ganddynt yn ystod y penwythnos preswyl cyntaf. Y prif nod yw sicrhau bod y myfyrwyr yn rhyngweithio ac yn gweithio fel tîm o beirianwyr wrth iddynt ymchwilio, pennu, cynllunio, dylunio a gweithredu eu prosiect. Mae perfformiad cyffredinol pob tîm a chyfraniad unigol pob aelod yn bwysig. Bydd eich rôl i'w cymell a'u harwain i ddefnyddio'r adnoddau rheoli peirianeg a phrosiect priodol yn hanfodol i sicrhau eu llwyddiant fel peirianwyr proffesiynol yng nghyd-destun y cwrs hwn. Bydd yn ofynnol i chi roi arweiniad arbenigol dros y ffôn a thrwy gyswllt cyfrifiadurol wrth i'r prosiectau ddatblygu, ac asesu gwaith eich tîm a'i unigolion (gan gynnwys yr asesiadau terfynol) yn seiliedig ar eich goruchwyliaeth ohonynt ac ar eu cyflwyniadau ysgrifenedig. Rhaid i chi fod yn barod i fynd i'r ddau benwythnos preswyl a'u sesiynau briffio cysylltiedig.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn peirianeg neu bwnc gwyddonol neu dechnegol cysylltiedig
- profiad perthnasol o ddulliau cefnogi dysgu o bell Y Brifysgol Agored a'i hysgolion preswyl, gan gynnwys brwdfrydedd dros addysgu effeithiol o bell ac ymrwymiad i hynny
- profiad perthnasol o sail academaidd gwaith prosiect peirianeg ar lefel ôl-raddedig
- gwybodaeth am y gofynion datblygu academaidd a phroffesiynol ar gyfer statws Peiriannydd Siartredig
- y gallu i ysbrydoli, mentora, arwain a chymell aelodau o dîm prosiect
- ymwybyddiaeth o brosesau datblygu tîm a sensitifrwydd ynglŷn â rôl ragweithiol/ymatebol tiwtor tîm
- sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol sy'n ddigon dylanwadol er mwyn delio â dymeg grŵp ac er mwyn datrys achosion o wrthdaro o fewn tîm fel hwn
- y gallu i addysgu sgiliau cyflwyno llafar ac ysgrifenedig effeithiol ar gyfer cyflwyno adroddiadau'n broffesiynol
- profiad o ymchwilio a gwybodaeth am sgiliau chwilio ar lefel briodol.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o fideogynadleda a chyfathrebu cyfrifiadurol
- profiad o waith dylunio, peirianeg, datblygu a/neu weithgynhyrchu cynhyrchion neu brosesau

- profiad o hwyluso'r gwaith o reoli ac arwain timau prosiect peirianeg mewn naill ai cyd-destun academaidd neu gyd-destun diwydiannol
- ymwybyddiaeth o adnoddau a thechnegau cynllunio a rheoli prosiect
- gwerthfawrogiad o bwysigrwydd datblygu cynaliadwy, effaith amgylcheddol, iechyd a diogelwch, technegau dibynadwyedd ac ansawdd, hawliau eiddo deallusol, a moeseg i beirianeg.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Rhaid i chi fod yn barod i fynd i ddau benwythnos preswyl T885 (mae dyraniad myfyrwyr wedi'i drefnu yn ystod y penwythnos preswyl cyntaf), gan gynnwys y sesiynau briffio i diwtoriaid ar ddydd Gwener.
- Bydd yn ofynnol i chi helpu tîm o tua phum myfyriwr i gyflawni unrhyw un cyflwyniad.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	4
Band cyflog:	1
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	2

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.